# Mewnwelediad a Deallusrwydd Mehefin 2026

Yn ystod mis Mehefin 2026, ymwelodd tîm Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd â **5** o leoliadau ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen a siaradwyd â chyfanswm o **80** pobl (**59** Benyw a **21** Gwryw). Bu'r tîm yn rhyngweithio â thrigolion mewn sawl lleoliad, gan gynnwys lleoliadau cymunedol a buont hefyd yn rhoi sgyrsiau i grwpiau.

## Beth wnaethon ni ei glywed y mis hwn?

- Mae mynediad at ofal sylfaenol yn bryder sy'n codi dro ar ôl tro, gyda rhai trigolion yn rhoi gwybod am anawsterau wrth geisio sicrhau apwyntiadau meddyg teulu a rhwystredigaeth gyda llwybrau mynediad, er y derbyniwyd adborth cadarnhaol hefyd am feddygfeydd teulu ymatebol a chyfathrebu rhagweithiol â chleifion.
- Mae teithio a thrafnidiaeth yn parhau i effeithio ar brofiad cleifion, yn enwedig i bobl hŷn. Tynnodd trigolion sylw at heriau wrth deithio i apwyntiadau, pryderon ynghylch gwasanaethau sydd wedi'u lleoli ymhellach o gymunedau, ac anawsterau wrth gael mynediad at gymorth gyda thrafnidiaeth.
- Mae mynediad at wasanaethau deintyddol yn parhau i fod yn broblem, gyda llawer o bobl yn dweud nad ydynt yn ymwybodol o'r Porth Mynediad Deintyddol ac yn nodi nad oes ganddynt ddeintydd y GIG. Dywedwyd yn aml y byddai gwybodaeth am y porth yn cael ei groesawu.
- Mae amseroedd aros ac oedi cyn cael triniaeth yn destun pryder i rai, gan gynnwys pryderon ynghylch gohirio llawdriniaeth a mynediad at wasanaethau arbenigol.
- Derbyniwyd adborth cadarnhaol am nifer o wasanaethau'r GIG, gan gynnwys fferyllfeydd cymunedol, therapi iaith a leferydd, gwasanaethau brechu, gwybodaeth ar ymwybyddiaeth o sepsis, cyfathrebu â meddygon teulu, a gofal achub bywyd a ddarperir gan dimau ysbytai.
- Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd ac anghenion gwybodaeth yn parhau i fod yn uchel, gyda thrigolion yn ceisio arweiniad ar lwybrau gofal brys, rhaglenni sgrinio, darparu cymhorthion clyw, cynlluniau ysbytai cymunedol, rheoli meddyginiaethau, a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Roedd sesiynau ymgysylltu yn gyfle i gyfeirio pobl at wasanaethau a chymorth perthnasol.










## Beth nesaf?

- Bydd y tîm yn parhau i ganolbwyntio ar lu o bynciau i helpu pobl i aros yn iach yn ystod gweddill misoedd y Gaeaf. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwybodaeth a chyfeirio ynghylch brchlynnau ffliw, COVID-19 ac RSV; cadw'n iach cyn triniaeth a llawdriniaeth; Canllaw Iechyd Gwent a'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin
- Byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth am bynciau amrywiol gan gynnwys:
- Sut y gall trigolion Gwent gael mynediad at Wasanaethau Sgrinio Canser a Chymorth Iechyd Menywod ar gyfer gwasanaethau iechyd mislif, atal cenhedlu a menopos
- Hyrwyddo Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl gan gynnwys 111 Opsiwn 2 a Melo
- Ymwybyddiaeth Sepsis

Mae'r holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a'i adolygu i nodi themâu a thueddiadau allweddol. Rydym yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i glywed gyda'r timau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny a chyda uwch arweinwyr. Mae'r mewnwelediadau yn helpu i siapio gwelliannau i wasanaethau, penderfyniadau cynllunio a pholisïau. Rydym hefyd yn anelu at gau'r ddolen trwy rannu diweddariadau gyda chymunedau fel y gall pobl weld sut mae eu hadborth wedi helpu i ddylanwadu ar newid. I gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r gymuned, ewch i'n gwefan: **https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-cymunedol/**